## Difiau Dyrchafael

Beth sydd ymlaen fore o Fai ar y bronnydd?
Edrychwch arnynt, ar aur y banadl a'r euron
A'r wenwisg loyw ar ysgwyddau'r ddraenen
Ac emrallt astud y gwellt a'r lloi llonydd;

Gwelwch ganhwyllbren y gastanwydden yn olau,
Y perthi'n penlinio a'r lluan fedw'n fud,
Deunod y gog dros ust llathraid y ffrwd
A'r rhith tarth yn gwyro o thuser y dolau:

Dowch allan, ddynion, o'r tai cyngor cyn
Gwasgar y cwning, dowch gyda'r wenci i weled
Codi o'r ddaear afrlladen ddifrycheulyd
A'r Tad yn cusanu'r Mab yn y gwlith gwyn.
Saunders Lewis

## Y Weddi Derfynol

Hosanna! Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd Dduw at Grist y Dioddefwr, yr un a ddrylliwyd gan yr hoelion dur ar y Groes. Agor yn llydan dy freichiau er mwyn cofleidio'r byd yn ei gyflwr arteithiol, fel na foed i neb ohonom anwybyddu galwad Calfaria, ond cyflwyno ein hunain fel ag yr ydym i'th drugaredd. Amen.